



**ARCHWILIAD CYN-DEDDFWRIAETH
GORCHYMYN CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL
ARFAETHEDIG AR YR IAITH GYMRAEG**

Ymateb BT i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig

Cyflwyniad

1. Mae BT yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at archwiliad cyn-deddfwriaeth y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig o ddarpar Orchymyn (Cymhwysedd Deddfwriaethol)(Iaith Gymraeg) 2009, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu safbwynt cyfredol BT ar y Gorchymyn arfaethedig.
2. Mae BT yn helpu Cymru i fynnu ei lle o fewn economi gwybodaeth y byd ac mae'r un mor falch o'i waith ym maes cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, wrth chwarae rôl flaengar ar nifer o faterion, o dacio'r newid hinsawdd i helpu i leddfu ynysu cymdeithasol. Er enghraifft;-
 - hyrwyddo'r Gymraeg - polisi dwyieithog wedi ennill gwobrau
 - cefnogi cymunedau – cynlluniau i symbylu cynhwysiad digidol
 - cynnal cystadleugarwch – buddsoddi miliynau yn economi Cymru bob blwyddyn.
3. Mae ymrwymiad y cwmni i'r Gymraeg yn elfen hanfodol o'n presenoldeb yng Nghymru. Yn 2004, dathlodd BT 10^{fed} pen-blwydd ei god ymarfer dwyieithog, a sefydlwyd fel rhan o ymrwymiad gwirioneddol i gefnogi diwylliant amrywiol Cymru. Yn unol â'i god ymarfer, mae BT yn benderfynol o gyfathrebu â'i gwsmeriaid mewn modd agored a chefnogol, ac o gynnal dyfodol economaidd a chymdeithasol y wlad, ynghyd â'i hamgylchedd diwylliannol a naturiol. A dywed datganiad cenhadaeth y cwmni bydd yn darparu gwasanaeth dwyieithog cyson a dibynadwy, a chynnal yr un safonau yn Gymraeg a Saesneg, pan fo hynny'n ymarferol.
4. Dros y blynyddoedd diwethaf, canmolwyd ein polisi dwyieithog gan Lywodraeth y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn 2007, lansiodd ymgyrch i wella ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wrth hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg BT a chymell mwy o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio ein gwasanaethau dwyieithog a chefnogi'r iaith. Rydym yn edrych ymlaen at gynyddu defnydd o'r Gymraeg dros y degawd nesaf, wrth gydweithio â Llywodraeth y Cynulliad a phartneriaid sector preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

Ymateb i gwestiynau penodol y Pwyllgor

Cwestiwn 1. Ydy'r cais am y Gorchymyn yn dilyn ysbryd a sgôp y cytundeb datganoli?

5. Mae BT yn deall y rhesymeg o drosglwyddo pwerau deddfu sylfaenol dros y Gymraeg i'r Cynulliad Cenedlaethol ond ar yr un pryd am weld mwy o adnoddau ar gyfer y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol er mwyn hybu defnydd gwirioneddol o'r iaith a darparu mwy o wasanaethau Cymraeg. Ym marn BT, ni ddylai unrhyw waith ym maes deddfwriaeth amharu ar, neu leihau'r ffocws wrth geisio gwella defnydd o'r iaith a chynyddu sgiliau a hyder siaradwyr Cymraeg wrth ddefnyddio'r Gymraeg, boed yn y gweithlu neu'r cartref.

Cwestiwn 2. Ydy defnydd o'r Gorchymyn yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006?

6. Nid yw BT am roi sylwadau ar y cwestiwn hwn.

Cwestiwn 3. Ydy defnydd o'r Gorchymyn yn fwy addas na, er enghraifft, defnyddio pwerau fframwaith o fewn Mesur San Steffan?

7. Yn dilyn ein hymateb i Gwestiwn 1, credwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad ddarparu mwy o gyllid er mwyn cymell pobl i ddefnyddio'r gwasanaethau cyfredol. Un fenter bosibl fyddai sefydlu broceriaid iaith i helpu unigolion llai rhugl a phobl nad ydynt wedi arfer defnyddio'r Gymraeg tu allan i'r cartref. Mae hyn wedi gweithio yng nghyd-destun rhaglenni cymunedol i hybu defnydd o dechnolegau gwybodaeth.

Cwestiwn 4. Y graddau bod galw am ddeddfwriaeth ar y mater(ion) dan sylw?

8. Mae BT wedi dilyn cod ymarfer iaith Gymraeg gwirfoddol am lawer o flynyddoedd. Rydym wedi ymrwmo i gefnogi'r iaith ac am ei gweld yn ffynnu a chryfhau ar draws y wlad. O fewn y maes "telathrebu" rydym yn arwain y farchnad wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog, Cymraeg a Saesneg. Nid yw BT am gael ei gynnwys o dan unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Mae BT o'r farn mai parhau i ddilyn ei god gwirfoddol yw'r ateb gorau. Rydym yn gobeithio bydd modd ailystyried yr elfen hon.
9. Yn ein barn ni, mae mwyafrif o'n cwsmeriaid, siaradwyr Cymraeg a Saesneg, yn disgwyl i BT gefnogi'r Gymraeg. Ein gobaith yw bydd modd perswadio mwy o gwsmeriaid i ddefnyddio ein gwasanaethau Cymraeg.
10. Rydym wedi bod yn pwysu ar Lywodraeth y Cynulliad a'i gweinidogion i ganolbwyntio gwaith nid ar ddeddfwriaeth, ond ar raglenni ymarferol i symbylu mwy o ddefnydd o'r iaith gan siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Dylai hynny gynnwys marchnata pro-actif o wasanaethau Cymraeg (ym mhob sector) a helpu siaradwyr Cymraeg i ddatblygu hyder a sgiliau iaith.
11. Hoffem weld camau i symbylu defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau drwy'r Mentrau Iaith ac, fel y dywedwyd eisoes, ystyried y posibilrwydd o greu broceriaid iaith i helpu unigolion llai rhugl a phobl nad ydynt wedi arfer defnyddio'r Gymraeg tu allan eu cartrefi. Fodd bynnag, os am brofi'n effeithiol bydd rhaid diffinio canlyniadau ac effeithiau mesuradwy dros yr hir dymor ee cyfnod 10 blynedd rhwng pob cyfrifiad. Gellid eu rheoli drwy asiantaeth ganolog (efallai o dan arolygaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg), gan rannu'r arferion gorau ac ymateb i anghenion lleol, gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn archwilio'r broses gyfan.
12. Felly, mae BT am sicrhau y cymerir camau ymarferol i hyrwyddo defnydd o'r gwasanaethau Cymraeg cyfredol ar y cyd â datganoli pwerau dros y Gymraeg yn unol â'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol hwn

Cwestiwn 5. I ba raddau allai trosglwyddo'r pwerau hyn effeithio cyllideb y Deyrnas Unedig yn gyffredinol?

13. Yn nhermau gweithredu gofynion cyfreithiol, mae'n anodd ymateb oherwydd nid ydym yn gwybod beth fydd natur y gofynion hynny. Felly, nid oes modd i ni roi sylwadau ar yr oblygiadau ehangach ar BT fel cwmni'n gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig, nac ar yr effeithiau ar ein busnes o fewn cyd-destun y DU.
14. Rydym wedi gofyn am fanylion, ond o'r farn nad yw'r broses wedi'i esbonio'n llawn. Awgrymwyd bydd unrhyw fesurau'n rhai 'ysgafn'. Ond beth yw ystyr hynny? Bydd rhaid cyflwyno rhyw broses neu'i gilydd a bydd hynny'n galw am ryw elfen o fiwrocratiaeth. Faint o fiwrocratiaeth? Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi swyddog iaith Gymraeg sy'n canolbwyntio gymaint â phosibl ar brojectau cymunedol ee cydweithio â'r Urdd ar broject i ddiogelu plant ar y rhyngwyd. A fydd angen iddo yn lle fynychu cyfarfodydd gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn lle hynny? Heb wybod yr oblygiadau ymarferol, nid oes modd amcangyfrif unrhyw gostau.
15. Rydym yn deall y bydd y ddeddfwriaeth yn cynnwys pob cwmni "telathrebu" yn y sector sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Bydd rhaid i hynny fod er lles cwsmeriaid a hyrwyddo cystadleuaeth deg. Bydd angen diffiniadau clir o'r gwasanaethau y disgwylir i'r busnesau hyn eu darparu.
16. Ym marn BT, rhaid cael cydraddoldeb llwyr rhwng y gofynion ar y cwmni, o dan Mater 20.1 (h, iv.) fel "gwasanaethau telathrebu", a'i gystadleuwyr. Bydd methu gwneud hynny'n rhoi mantais i'n cystadleuwyr drwy ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y Cynulliad. Gofynnwn y Pwyllgor i gael cadarnhad o hynny gan Lywodraeth y Cynulliad.
17. Fel enghraifft o'r arferion gorau ym maes gwasanaethau Cymraeg, credwn y gellid defnyddio cod ymarfer dwyieithog¹ BT fel meincnod ar gyfer y sector.

Cwestiwn 6. I ba raddau allai trosglwyddo'r pwerau hyn effeithio pwerau heb eu datganoli?

18. Yn debyg i'r ymateb i Gwestiwn 5, nid oes modd i ni roi sylwadau ar yr effeithiau ar ein corff yng nghyd-destun meysydd heb eu datganoli.

Cwestiwn 7. Oes unrhyw faterion yn gysylltiedig â'r Gorchymyn a allai dreiddio dros Glawdd Offa? (Fyddai angen deddfwriaeth bellach yn Lloegr?)

19. Yn 2008, cyhoeddodd Swyddfa Fasnach y Llywodraeth ddogfen yn canmol dulliau caffaelio moesegol. Mae'r ddogfen *Buy and make a difference - How to address social issues in public procurement* yn dangos sut i ystyried materion cymdeithasol ar bob cam o'r broses gaffaelio. Ar 11 Mehefin 2008 dywedodd Ysgrifennydd y Trysorlys, Angela Eagle AS, wrth annerch cynhadledd atebion caffaelio yn Llundain:

¹<http://www.btplc.com/Thegroup/BTUKandWorldwide/BTRRegions/Wales/WelshLanguagePolicy/Bilinalgualcodeofpractice.pdf>

*"Innovative approaches and solutions through public procurement should be used to achieve social outcomes and objectives. I want procurers to be looking at imaginative options and to talk with customers and interest groups to understand what the market can provide."*²

20. Credwn y dylid ystyried darparu gwasanaethau Cymraeg fel enghraifft o ymddygiad moesegol da wrth bennu cytundebau Llywodraethau San Steffan a'r Cynulliad yng Nghymru.

Cwestiwn 8. Fyddai'r Gorchymyn arfaethedig yn galw am sefydlu/diddymu sefydliadau a strwythurau Cymreig? Os felly, pwy sydd â'r cymhwysedd deddfwriaethol i weithredu'r fath newidiadau?

21. Rydym wedi cydweithio â Bwrdd yr Iaith Gymraeg am nifer o flynyddoedd ac wedi gwerthfawrogi ei gyngor a chymorth. Mae BT yn gobeithio bydd y Bwrdd yn parhau i chwarae rôl allweddol mewn hyrwyddo'r Gymraeg yn y dyfodol. Yn wir, hoffai BT weld cynnydd mewn adnoddau'r Bwrdd i hyrwyddo defnydd o wasanaethau Cymraeg ym mhob sector a chefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg. Fel y dywedwyd yn gynharach, barn BT yw y dylid canolbwyntio ymdrechion ar gynyddu defnydd o'r gwasanaethau Cymraeg cyfredol a gallu pobl i ddefnyddio'r iaith yn feunyddiol.

Crynodeb o'r prif bwyntiau

22. Mae BT yn deall y rhesymeg o drosglwyddo pwerau deddfu sylfaenol dros y Gymraeg i'r Cynulliad Cenedlaethol, ond ar yr un pryd am sicrhau y defnyddir adnoddau prin y sectorau preifat a chyhoeddus i symbylu gwahaniaethau gwirioneddol mewn defnydd o'r Gymraeg. Ein pryder am y ddeddfwriaeth arfaethedig yw na fydd yn taclo'r materion gwirioneddol yn wynebu'r Gymraeg yn yr 21^{ain} Ganrif. Bydd yn canolbwyntio adnoddau ac ymdrechion ar y broses gyfreithiol yn hytrach na mesurau ymarferol.
23. Rydym yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gynyddu'r cyllid i gymell pobl i ddefnyddio'r gwasanaethau cyfredol, ynghyd â chymau ymarferol eraill cyn ystyried deddfwriaeth i fynnu creu rhagor o'r fath wasanaethau. Un fenter bosibl fyddai sefydlu rhaglen i wella sgiliau siaradwyr Cymraeg er mwyn helpu pobl sy'n siarad Cymraeg gartref ond heb yr hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
24. Nid yw BT am weld deddfwriaeth yn galw arno i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Ei ddymuniad fyddai parhau i wneud hynny'n wirfoddol. Mae'n gofyn a oes modd ailystyried yr elfen hon o'r mesur arfaethedig.
25. Mae BT am weld cydraddoldeb llwyr rhwng y gofynion ar y cwmni, o dan Mater 20.1 (h, iv.) fel "gwasanaethau telathrebu", a'i gystadleuwyr. Bydd methu gwneud hynny'n rhoi mantais i'n cystadleuwyr drwy ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y Cynulliad. Gofynnwn y Pwyllgor i gael cadarnhad o hynny gan Lywodraeth y Cynulliad.

² http://www.ogc.gov.uk/About_OGC_news_8440.asp

26. Fel enghraifft o'r arferion gorau ym maes darparu gwasanaethau Cymraeg, mae'r cwmni'n galw ar unrhyw ofynion yn y dyfodol i ddefnyddio cod ymarfer dwyieithog³ BT fel meincnod ar gyfer y sector.
27. Mae BT yn cytuno â sylwadau Ysgrifennydd y Trysorlys, Angela Eagle AS, yn 2008: *"Innovative approaches and solutions through public procurement should be used to achieve social outcomes and objectives."* Ym marn BT, dylai'r iaith Gymraeg fod yn un o'r ffactorau hynny.

British Telecommunications plc
5 Mawrth 2009

³<http://www.btplc.com/Thegroup/BTUKandWorldwide/BTRegions/Wales/WelshLanguagePolicy/Bilingualcodeofpractice.pdf>